**Andrew RT Davies AS – Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig**
**Adroddiad ar ymweliad â'r Oireachtas – 10 Tachwedd 2022**

**Diben yr ymweliad**

Ro'n i eisiau ymweld â Senedd Iwerddon yn Nulyn er mwyn ffurfio perthynas agosach â chydweithwyr yn Senedd Iwerddon. Mae nifer fawr o'r sectorau sy'n rhan o economi Cymru yn cynnal masnach sylweddol â Gweriniaeth Iwerddon, gan gynnwys amaethyddiaeth. Ro'n i, felly, eisiau trafod sut y gallwn ni adeiladu ar gysylltiadau presennol er budd ein priod economïau. Ro'n i hefyd am gael trafodaeth ynghylch marchnadoedd eraill sy'n hanfodol i economi Cymru – twristiaeth, er enghraifft – sy'n dibynnu ar farchnad Iwerddon. Fy ngobaith – drwy feithrin cysylltiadau â chydweithwyr yn Iwerddon – yw gallu sefydlu cysylltiadau gwaith da er mwyn hyrwyddo gwaith y Senedd a rhannu arfer gorau.

Fel yng Nghymru, mae'r sectorau amaethyddiaeth a thwristiaeth yn allweddol i economi Iwerddon. Drwy rannu syniadau, fe fyddwn ni'n gallu datblygu polisïau newydd y gellir eu cyflwyno yn y Senedd.

Mae ymweld â chydweithwyr mewn seneddau ledled y byd yn ein helpu i hyrwyddo gwaith y Senedd iddyn nhw. Fe ddefnyddiais i'r ymweliad i egluro'r gwaith rwyf fi a grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn ei wneud yn y Senedd, a'r rôl y mae'r Senedd yn ei chwarae'n fwy cyffredinol i bobl Cymru.

**Cyfarfod gyda Phwyllgor yr Amgylchedd a Gweithredu ar yr Hinsawdd – y Dirprwy Brian Leddin, y Dirprwy Richard Bruton a'r Seneddwr John McGahon**

Dechreuodd aelodau'r Pwyllgor y cyfarfod drwy ddweud wrthyf fod Iwerddon wedi bod yn gweithio'n galed tuag at ehangu ei chynhyrchiant ynni adnewyddadwy – yn enwedig yn y blynyddoedd diwethaf – a'i bod ymhell ar ei ffordd i fod yn un o'r arweinyddion ym maes newid hinsawdd yn Ewrop.

Yn 2020, roedd ynni gwynt yn unig yn darparu 36.3% o drydan y wlad. Ym mis Gorffennaf 2022, roedd gwynt wedi cynhyrchu 34% o ofynion trydan Iwerddon hyd at y pwynt hwnnw eleni. Ar hyn o bryd, ar y tir y cynhyrchir bron â bod yr holl ynni gwynt yn Iwerddon ond buom yn trafod cynlluniau Llywodraeth Iwerddon i adeiladu 5 GW o gapasiti ynni gwynt ar y môr erbyn 2030, fel rhan o weithio tuag at y nod o 35 GW erbyn 2050. Mae màs môr-i-dir Iwerddon saith gwaith maint y wlad, gan ganiatáu iddi ddatblygu a buddsoddi i ddod yn ffynhonnell sylweddol o ynni gwynt alltraeth Ewrop. Yn barod, hi yw'r defnyddiwr ail uchaf trydan gwynt adnewyddadwy yn Ewrop.

Yn 2020 cyrhaeddodd Iwerddon ei tharged o ran trydan adnewyddadwy, sef 40% adnewyddadwy ar gyfartaledd trwy gydol y flwyddyn (yn bennaf wedi'i gynhyrchu o wynt). Fodd bynnag, fe nodwyd na chyrhaeddwyd y targedau gwresogi, oeri na chludiant.

Nod Iwerddon yw dod yn un o arweinyddion Ewrop ym maes cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gyda'r targed o haneru'r holl allyriadau erbyn 2030, ac mae dilyn arwyddo Deddf Gweithredu ar yr Hinsawdd a Datblygu Carbon Isel 2021 wedi gosod Iwerddon, bellach, ar lwybr sy'n rhwym yn gyfreithiol tuag at allyriadau sero-net heb fod yn hwyrach na 2050. Ymhlith targedau eraill mae datgarboneiddio'r system drydan i 80% erbyn 2030.

**Cyfarfod â'r Pwyllgor Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr – y Dirprwy Jackie Cahill, y Dirprwy Michael Fitzmaurice, y Seneddwr Tim Lombard a'r Seneddwr Paul Daly**

Tynnodd y pwyllgor sylw at gyhoeddiad y Rhaglen Goedwigaeth gwerth €1.3 biliwn, gyda'r nod o gynnig grantiau a phremiymau fydd rhwng 46% a 66% yn uwch na'r cyfraddau blaenorol, ar gyfer plannu coed. Hwn fydd y buddsoddiad mwyaf erioed gan y llywodraeth yn y sector, caiff ei ariannu 100% gan y trysorlys ac mae bellach yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth cymorth gwladwriaethol gan y Comisiwn Ewropeaidd – gyda'r nod o ailgysylltu ffermwyr â choedwigo.

Mae Iwerddon, fel Cymru a gweddill y DU, yn ei chael hi'n anodd denu pobl ifanc i'r sector amaethyddol. Roedd y pwyllgor yn rhannu pryderon cyffredin y boblogaeth ffermio, gyda 27% o ffermwyr yn Iwerddon yn dweud bod eu llesiant yn 'wael' neu'n 'is na'r cyfartaledd' yn gynharach eleni. Roedd hyn yn gysylltiedig â nifer o bryderon, gan gynnwys llwyth gwaith, arian, newidiadau polisi, rheoleiddio ac olyniaeth i'r ffermydd.

**<u>Cyfarfod gyda'r Pwyllgor Twristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau – y Seneddwr Malcolm Byrne</u>**

Yn ystod y cyfarfod hwn tynnodd y Pwyllgor sylw at dreth gwelyau twristiaeth arfaethedig yn Iwerddon, sydd wedi arwain at bryderon y byddai'n cau busnesau ac yn arwain at golli swyddi. Mae'r cynnig hwn am ardoll llety nosweithiol wedi'i feirniadu gan Gonffederasiwn Diwydiant Twristiaeth Iwerddon (sy'n grŵp ymbarél o westai Gwyddelig, darparwyr llety, perchnogion tafarndai, bwytai ac atyniadau) oherwydd eu bod o'r farn na fydd llawer o fusnesau'n goroesi os bydd awgrym y Comisiwn Treth a Llesiant yn mynd yn ei flaen. Mae'r Conffederasiwn wedi honni y byddai'r mesur ond yn cynyddu chwyddiant ymhellach ac yn gwneud Iwerddon yn lle llai deniadol i ymwelwyr, pan mai diwedd y gân yw'r geiniog ar draws y byd yn sgil argyfwng costau byw.

Fe gawsom ein harwain gan y sgwrs am dwristiaeth at drafod yr argyfwng tai yn Iwerddon, lle mae galw uchel a diffyg adeiladu tai digonol – fel yng Nghymru – wedi'i gwneud yn fwyfwy anodd i bobl a theuluoedd gweithgar sicrhau a fforddio tai digonol. Caiff hyn ei ddwysau ymhellach, hyd yn oed, gan y sefyllfa sydd ohoni yn dilyn y pandemig ac wrth letya ffoaduriaid o Wcrain sy'n gorfod ffoi'n boenus ffoi rhag rhyfel.

Buom yn trafod y polisi 'Tai i Bawb' – sef cynllun tai llywodraeth Iwerddon hyd at 2030. Mae'n gynllun amlflwydd, gwerth biliynau o ewros, a fydd yn gwella system dai Iwerddon ac yn darparu mwy o gartrefi o bob math i bobl â gwahanol anghenion tai.

Nodwyd bod heriau sylweddol i'w goresgyn o hyd, a bwriad y cynllun 'Tai i Bawb' yw cyflawni ar gyfer pobl Iwerddon drwy gynyddu'r cyflenwad tai; ystod o fesurau prynu a rhentu fforddiadwy; mentrau newydd i fynd i'r afael â digartrefedd; a diwygiadau parhaus, hirdymor i'r systemau tai a chynllunio.

Bydd y Cynllun hwn yn cynyddu'r cyflenwad tai newydd i gyfartaledd o 33,000 o unedau newydd y flwyddyn, o leiaf, dros y degawd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys dros 10,000 o gartrefi cymdeithasol bob blwyddyn dros y pum mlynedd nesaf, gyda 9,500 o'r rheini'n dai newydd, a chyfartaledd o 6,000 o gartrefi fforddiadwy i'w prynu neu eu rhentu.

**<u>Pwyllgor Menter, Masnach a Chyflogaeth – y Dirprwy Richard Bruton, y Dirprwy David Stanton a'r Seneddwr Garret Ahearn</u>**

Yn ystod y cyfarfod hwn cefais wybod bod masnach Iwerddon wedi cyrraedd €842 biliwn y llynedd – yr uchaf erioed – er gwaethaf heriau yn sgil Covid a Brexit. Ysgogwyd hyn gan allforion cryf, a oedd yn cyfrif am €451 biliwn o'r cyfanswm hwnnw. Cawsom wybod gan y Pwyllgor fod gallu'r Weriniaeth i osgoi dirwasgiad i'w briodoli i wydnwch eu heconomi, a alluogwyd mewn tro yn sgil eu llwyddiant i ddenu buddsoddiad, masnach mewn nwyddau a gwasanaethau ar lwyfan rhyngwladol.

Fe wnaeth bron i 1/3 o'r nwyddau gwerth €165 biliwn a allforiwyd gan Iwerddon y llynedd i'r Unol Daleithiau a'r wlad honno – ynghyd â'r UE – oedd eu partneriaid masnachu allweddol. Mae pryderon y gallai'r sefyllfa anodd fyd-eang bresennol gyda chyflenwadau, newid hinsawdd a chostau ynni cynyddol oherwydd y rhyfel yn Wcráin arwain at anawsterau o ran y modd y mae masnach Iwerddon yn perfformio.

**<u>Y Pwyllgor Iechyd – y Seneddwr Seán Kyne</u>**

Yn ystod y cyfarfod hwn buom yn trafod rhaglen diwygio gofal iechyd y Llywodraeth – *Sláintecare*. Roedd natur drawsbleidiol y rhaglen hon yn arbennig o ddiddorol. Ym mis Mehefin 2016, sefydlodd y Dáil y Pwyllgor ar Ddyfodol Gofal Iechyd gyda'r nod o sicrhau cytundeb gwleidyddol trawsbleidiol ar gyfeiriad y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol, a llunio cynllun deng mlynedd ar gyfer diwygio. Cafodd y cytundeb ei adlewyrchu ymhlith holl grwpiau gwleidyddol yn yr Oireachtas ar hyd a lled yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd – a'r angen i bennu gweledigaeth ar gyfer newid hirdymor – yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor. Roedd yr elfennau allweddol yn cynnwys cydnabod y canlynol:

- Y pwysau difrifol ar wasanaeth iechyd Iwerddon, yr amseroedd aros annerbyniol sy'n codi i gleifion cyhoeddus, a'r canlyniadau gwael o gymharu â chost.
- Yr angen am gonsensws ar lefel wleidyddol ar fodel ariannu'r gwasanaeth iechyd yn seiliedig ar anghenion iechyd y boblogaeth.
- Yr angen i sefydlu gwasanaeth un haen cyffredinol lle mae cleifion yn cael eu trin ar sail angen iechyd yn hytrach nag ar y gallu i dalu.
- Er mwyn cynnal iechyd a lles ac adeiladu gwasanaeth iechyd gwell, mae angen archwilio rhai o'r tybiaethau o ran gweithredu y mae polisi iechyd a gwasanaethau iechyd yn seiliedig arnynt.
- Y gellir cyflawni'r canlyniadau iechyd gorau – a gwerth am arian – drwy ailgyfeirio'r model gofal tuag at ofal sylfaenol a chymunedol, lle gellir diwallu anghenion iechyd y rhan fwyaf o bobl yn lleol.
- Bwriad yr Oireachtas yw datblygu a mabwysiadu cynllun 10 mlynedd ar gyfer gwasanaethau iechyd – yn seiliedig ar gonsensws gwleidyddol – fydd yn gallu cyflawni'r newidiadau hyn.

Buom hefyd yn trafod cyhoeddiad Gweithrediaeth Gwasanaeth Iechyd Iwerddon, sef y bydd nawr yn cynnig pecynnau adleoli gwerth hyd at dros €4,000 i weithwyr iechyd proffesiynol tramor sydd am symud i'r wlad. Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o fesurau i ddatrys y prinder llafur yng ngofal iechyd cyhoeddus Iwerddon. Mae'r polisi hwn wedi'i anelu at gyflymu'r broses recriwtio i fodloni'r galw sy'n dod i'r amlwg, a'r galw cynyddol yn y dyfodol.